



**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

Diwygio Camymddwyn Mewn Swydd Gyhoeddus Crynodeb

**Papur Ymgynghori Rhif 229 (Crynodeb)
5 Medi 2016**

COMISIWN Y GYFRAITH DIWYGIO CAMYDDWYN MEWN SWYDD GYHOEDDUS: PAPUR YMGYNGHORI

CRYNODEB

CYFLWYNIAD

- 1.1 Roedd ein hunfed Rhaglen ar ddeg er mwyn diwygio'r gyfraith yn cynnwys adolygiad o drosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus.¹ Ein cylch gorchwyl yw penderfynu a ddylid cael gwared ar y drosedd bresennol, sef camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, neu a ddylid ei chadw, ei hailddatgan neu ei diwygio; a chanlyn pa gynllun diwygio bynnag y byddwn yn penderfynu ei argymell. Yn y papur ymgynghori hwn, nodwn ein cynigion amodol er mwyn diwygio camymddwyn mewn swydd gyhoeddus.

Hanes y drosedd a'r galw i'w diwygio

- 1.2 Mae'r drosedd wedi bodoli ers cryn amser.² Gwnaethpwyd y datganiad mwyaf adnabyddus am y drosedd ym 1783 gan Brif Ustus Mansfield yn achos *Bembridge*.³ Rhwng diwedd y 18fed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar hugain, nis defnyddiwyd y drosedd rhyw lawer o gwbl, ac eithrio mewn ambell i achos proffil uchel. Felly, nid yw'n peri syndod efallai bod nifer o bobl, gan gynnwys barnwyr a chyfreithwyr, yn ansicr ynghylch y diffiniad o'r drosedd.
- 1.3 Bu galwadau niferus i ddiwygio'r maes hwn gan academyddion, barnwyr, cyfreithwyr, gweinidogion y Llywodraeth a'r cyfryngau. Yn ddiweddar, nododd y Llys Apêl:

Heb os, mae hwn yn faes anodd yng nghyfraith trosedd. Mae trosedd hynafol dan y gyfraith gyffredin yn cael ei defnyddio mewn amgylchiadau lle nad yw wedi cael ei gweithredu fawr ddim ynddynt yn flaenorol.⁴

Y papur cefndir a'r cyfnod ymgynghori cyntaf

- 1.4 Ar 20 Ionawr 2016, cyhoeddom *Camymddwyn mewn swydd gyhoeddus: Materion papur 1 – Y gyfraith bresennol* ("y papur cefndir").⁵ Papur cefndir oedd hwn ar gyfer ein hadolygiad o'r drosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus,

¹ Unfed Rhaglen ar Ddeg (2011) Comisiwn y Gyfraith Rhif 330.

² Gweler Atodiad A y papur cefndir am ddadansoddiad pellach o ddatblygiad hanesyddol y drosedd. Ar gael yn http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2016/01/apa_history.pdf.

³ *Bembridge* (1783) 3 Doug KB 327, 99 ER 679.

⁴ Arglwydd Thomas CJ yn *Chapman* [2015] EWCA Crim 539, [2015] 2 Cr App R 10.

⁵ Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus Materion Papur 1: Y Gyfraith Bresennol (Ionawr 2016), sydd ar gael yn http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2016/01/misconduct_in_public_office_issues-1.pdf.

a oedd yn nodi'r gyfraith bresennol, ynghyd â nifer o broblemau mewn perthynas â hi.

- 1.5 Roedd y papur cefndir yn gofyn i ymgynghoreion ymateb i ddeuddeg cwestiwn yn ymwneud â'r meysydd niferus o ansicrwydd ynghylch y drosedd. Diben hyn oedd ein galluogi i gasglu safbwyntiau am weithrediad y drosedd a'u hystyried wrth lunio'n cynigion amodol er mwyn ei diwygio. Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion a ymatebodd i'r papur cefndir yn cytuno bod angen dybryd i ddiwygio trosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Roedd yr ymatebion yn cadarnhau pryderon penodol i ni a godwyd yn ystod y trafodaethau a gawsom gyda rhai o'r bobl a'r sefydliadau y mae ganddynt brofiad o'r drosedd a'i gweithrediad. Mae'r rhain yn cynnwys adrannau'r Llywodraeth, erlynwyr, academyddion, bargyfreithwyr sy'n arbenigo ym maes amddiffyn ac erlyn y drosedd, cyrff annibynnol a chynrychiolwyr cyfreithiol y wasg.
- 1.6 Mae'r papur ymgynghori a gyhoeddir nawr yn nodi ein cynigion amodol er mwyn diwygio'r gyfraith.

Y symposiwm a'r ymatebion i'r papur cyntaf

- 1.7 Yn ogystal â chyhoeddi'r papur cefndir ar 20 Ionawr, lanswyd ein hymgyngoriad mewn symposiwm a gynhaliwyd yn Ysgol y Gyfraith Dickson Poon, Coleg y Brenin Llundain. Roedd tua 100 o bobl o amrywiaeth o gefndiroedd wedi mynychu'r digwyddiad, a chafwyd trafodaeth ddifyr am rai o'r materion allweddol a godir yn ein papur. Mae Atodiad A y Papur Ymgynghori yn cynnwys dadansoddiad o'r cyfraniadau a wnaethpwyd yn ystod y symposiwm.⁶
- 1.8 Cafwyd 36 o ymatebion ymgynghori i'r papur cefndir. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r unigolion a'r cyrff hynny a neilltuodd yr amser i ymateb yn ysgrifenedig. Rhoddir esboniad o'r berthynas rhwng y cwestiynau a ofynnwyd yn y papur cefndir a'r ymatebion a gafwyd, ynghyd â'r prif themâu sy'n deillio o'r ymatebion, ym Mhennod 2 y Papur Ymgynghori.
- 1.9 Fel rhan o'r cam cychwynnol hwn o'r broses ymgynghori, rydym wedi cyfarfod gyda nifer o sefydliadau ac unigolion yn uniongyrchol, yn y fforymau canlynol:
 - (1) Grŵp o randdeiliaid cynrychiadol:⁷
 - (2) Grŵp cyngori academiaidd.⁸
 - (3) Grŵp cyngori barnwrol ac i ymarferwyr.⁹
 - (4) Grŵp rhanddeiliaid y llywodraeth.¹⁰

⁶ Ar gael ar-lein yn <http://www.lawcom.gov.uk/project/misconduct-in-public-office/>.

⁷ Cynhaliwyd y cyfarfod ar 23 Chwefror 2016.

⁸ Cynhaliwyd y cyfarfod ar 5 Mai 2016. Rydym yn ddiolchgar hefyd i Athro Jeremy Horder ac Athro Anthony Duff, y mae'r ddau ohonynt wedi darparu sylwadau ysgrifenedig am rannau o'n papur ymgynghori drafft.

⁹ Cynhaliwyd y cyfarfod ar 12 Mai 2016. Rydym yn ddiolchgar hefyd i Cheema Grubb J a Jamas Hodivala, nad oedd modd iddynt fynychu'r cyfarfod, am ddarparu sylwadau ysgrifenedig i ni.

(5) Grŵp randdeiliaid ehangach y llywodraeth.¹¹

1.10 Mae'r cyfraniadau a wnaethpwyd yn ystod y symposiwm, yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a'r mewnbwn a gawsom o ganlyniad i'r cyfarfodydd uchod, wedi rhoi cyfoeth o ddeunydd i ni, a byddwn yn manteisio ar hwn wrth i ni lunio'r dewisiadau a gynigiwn er mwyn diwygio'r gyfraith.

Y GYFRAITH BRESENNOL A'I PHROBLEMAU

1.11 Yr achos modern mwyaf blaenllaw yw Attorney General's Reference (No 3 of 2003) ("Cyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol"),¹² lle y datganodd y Llys Apêl mai elfennau'r drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yw:

- (1) swyddog cyhoeddus yn gweithredu yn y fath fodd;
- (2) yn fwriadol esgeuluso cyflawni ei ddyletswydd a/neu yn fwriadol gamymddwyn ei hun;
- (3) i'r fath raddau fel ei fod yn camddefnyddio ymddiriedaeth y cyhoedd yn neiliad y swydd; a
- (4) heb esgus neu gyfiawnhad rhesymol.¹³

Mae hyn yn awgrymu y ceir un drosedd y mae modd ei chyflawni mewn dwy ffordd, sef esgeulustod bwriadol a chamymddwyn bwriadol, er y gallai'r ddwy elfen fod yn bresennol yn yr achos.

1.12 Yn y papur cefndir, nodom broblemau niferus gyda ffurf bresennol y drosedd yn y gyfraith gyffredin, sy'n ei gwneud hi'n anodd ei defnyddio. Y rhain yw:

- (1) Diffyg diffiniad clir o "swydd gyhoeddus", ond mae hon yn elfen graidd o'r drosedd. Mae'r amwysedd hwn yn creu anawsterau wrth ddehongli a gweithredu'r drosedd.
- (2) Ceir ansicrwydd ynghylch y mathau o ddyletswyddau y gallent olygu bod rhywun yn gymwys i fod yn ddeiliad swydd gyhoeddus. Yn ogystal, nid yw'n eglur o edrych ar y gyfraith achosion a yw hi'n hanfodol profi y torrwyd y dyletswyddau penodol hynny.
- (3) Mae "camddefnyddio ymddiriedaeth y cyhoedd" yn hollbwysig er mwyn darparu elfen drothwy y drosedd ond mae mor amwys fel ei bod yn anodd i ymchwilyr, erlynwyr a rheithgorau ei gweithredu.

¹⁰ Cynhaliwyd y cyfarfod ar (8 Gorffennaf 2016).

¹¹ Cynhaliwyd y cyfarfod ar (27 Gorffennaf 2016).

¹² [2004] EWCA Crim 868, [2005] QB 73 at [61].

¹³ Hwn yw'r datganiad mwyaf eglur o elfennau'r drosedd o hyd, er bod achosion mwy diweddar wedi mireinio agweddau ohoni. Yn arbennig, gweler *W* [2010] EWCA Crim 372, [2010] QB 787; *Chapman* [2015] EWCA Crim 539, [2015] 2 Cr App R 10; *Cosford* [2013] EWCA Crim 466, [2014] QB 81; a *Mitchell* [2014] EWCA Crim 318, [2014] 2 Cr App R 2.

- (4) Mae'r elfen o fai y mae'n rhaid ei phrofi ar gyfer y drosedd yn wahanol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Mae hon yn sefyllfa anarferol ac anegwyddorol.
 - (5) Er bod "esgus neu gyfiawnhad rhesymol" yn ymddangos fel elfen o'r drosedd, nid yw'n eglur a yw'n ffurfio amddiffyniad a saif ar ei ben ei hun neu fel elfen ddiffiniadol o'r drosedd.
- 1.13 Mae'r ymatebion a gafwyd i'r papur cefndir yn awgrymu bod ein dadansoddiad o'r problemau'n gywir ac yn gynhwysfawr. Ar ddiwedd Pennod 2 y Papur Ymgynghori, rydym yn dod i'r casgliad, o ystyried graddau a natur sylfaenol y problemau gyda'r drosedd bresennol, na ddylem gynnig , fel opsiynau diwygio, y dylid ei chadw na'i chyfundrefnu mewn cyfraith statud.
- 1.14 Y dewisiadau sydd ar ôl i ni er mwyn diwygio'r gyfraith yw naill ai creu un drosedd newydd neu fwy er mwyn disodli'r gyfraith bresennol, neu gael gwared ar y drosedd bresennol heb ei disodli. Trafodwn y dewisiadau hyn ym mhenodau 3 i 8 y Papur Ymgynghori.

Y RHESYMEG DROS GAEL Y DROSEDD

- 1.15 Y broblem sylfaenol sy'n dwyn ynghyd yr holl broblemau gyda'r drosedd bresennol yw'r ffaith nad yw hi'n eglur pa ddrygioni a dargedir gan y drosedd bresennol ac felly, pa fath o drosedd yw hi i fod. Ym Mhennod 3 y Papur Ymgynghori, trafodwn resymegau posibl ar gyfer y drosedd bresennol a sut y gallai'r rhain gynnig sylfaen ar gyfer unrhyw drosedd newydd a allai ei disodli.
- 1.16 Ar yr olwg gyntaf, ceir tri esboniad posibl dros fodolaeth y drosedd bresennol: camddefnyddio swydd er mwyn cael mantais bersonol, cam-lywodraethu a thorri ymddiriedaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw rai o'r esboniadau hyn yn rhoi cyfrif llawn o'r drosedd ar eu pen eu hunain. Yn yr un modd, nid oes unrhyw rai o'r rhesymegau a nodir yn cael eu diffinio mewn ffordd ddigon eglur er mwyn gallu seilio elfennau trosedd newydd arnynt.
- 1.17 Os mai'r prif ddrwg yw *camddefnyddio swydd er mwyn cael mantais bersonol neu er mwyn peri niwed i rywun arall*, nid yw'n eglur pam y dylid cyfyngu ar hyn i swyddogion cyhoeddus. Mae gan gyflogeion preifat yr un ddyletswydd i beidio camddefnyddio'u sefyllfa, a byddai achos dros gael trosedd gynhwysfawr yn cynnwys y sector cyhoeddus a phreifat, yn debyg i lwgrwobrwyo. Ymhellach, nid yw'r drygioni hyn yn cynnwys yr holl achosion o'r drosedd, yn arbennig yr achosion hynny y maent yn perthyn i elfen "esgeuluso dyletswydd yn fwriadol" y diffiniad (sef "achosion esgeulustod").
- 1.18 Os mai'r prif ddrygioni yw *cam-lywodraethu* (sy'n golygu defnydd gormesol neu ormodol o rym y wladwriaeth),¹⁴ byddai hyn yn awgrymu trosedd llawer yn fwy cul a fyddai'n cynnwys defnydd gormesol o bwerau swyddogol megis pwerau arestio. Fodd bynnag, mae'n aneglur a yw cam-lywodraethu'n gysyniad sy'n disgrifio un

¹⁴ Rydym yn esbonio ym mhennod 2 y papur cefndir bod camlywodraethu wedi cael ei gynnig fel y rhesymeg dros gamwedd cysylltiedig camweithrediad mewn swydd gyhoeddus. Am drafodaeth bellach am y camwedd, gweler Atodiad B y papur cefndir.

math o ddrwg neu sawl math ar wahân o ddrwg, megis gormes neu orelwa. Unwaith eto, byddai statws yr achosion esgeulustod yn ansicr dan y rhesymeg hon, er y byddai modd ystyried y rhain fel ffurf negyddol o gam-lywodraethu, sef methu defnyddio pwerau swyddogol yn ôl y gofyn.

- 1.19 Y drwg sy'n dod agosaf i esbonio'r drosedd bresennol yw *torri ymddiriedaeth y cyhoedd*. Ceir awdurdod cyfreithiol da sy'n cefnogi'r farn bod deiliaid swyddi cyhoeddus mewn sefyllfa lle y mae'r cyhoedd yn ymddiried ynddynt, yn debyg i berthynas o ymddiriedaeth mewn cyfraith sifil, er ein bod yn ystyried hon fel cyfatebiaeth ddefnyddiol yn hytrach na datganiad manwl o'r gyfraith. Yn arbennig, byddai'r cysyniad hwn ynghylch torri ymddiriedaeth (yr ydym yn ei ddisgrifio fel "synnwyr cryfach" yr ymadrodd hwnnw) yn esbonio achosion sy'n ymwneud â gwrthdaro rhwng buddiannau a chamddefnyddio swydd er mwyn cael mantais breifat a/neu er mwyn peri niwed, gan fod y rhain yn ffurfiau o dorri ymddiriedaeth sydd wedi hen sefydlu. Unwaith eto, fodd bynnag, nid yw hyn yn esbonio'r achosion esgeulustod, gan mai achosion o dorri ymddiriedaeth a hyder mewn ystyr wannach yw'r rhain, sef methu cyflawni dyletswydd yn ôl y disgwyl.
- 1.20 Aethom ymlaen i brofi'r casgliadau hyn trwy ystyried y pum categori ymddygiad a nodir yn y papur cefndir¹⁵ fel y rhai a erlynir yn eu cylch yn aml gan ddefnyddio'r drosedd hon, gan nad oes unrhyw drosedd arall yn berthnasol iddynt.
- 1.21 Categori 1: manteisio ar eich safle fel deiliad swydd gyhoeddus i hwyluso perthynas rywiol. Ar ôl ystyried y mathau o achosion y gallent fod yn berthnasol dan y categori hwn, rydym yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw reswm clir dros bennu ei fod yn droseddol, oni bai ei fod yn cynnwys elfen o gam-fanteisio ar unigolyn mewn sefyllfa fregus. Fodd bynnag, gall y math hwn o gamfanteisio ddigwydd mewn nifer o wahanol gyd-destunau ac nid yw ynghlwm wrth y ffaith eu bod yn cyflawni swydd gyhoeddus. Nid yw Categori 1 ar ei ben ei hun yn cynnig dadl ddigonol dros gyflwyno trosedd wedi'i seilio ar dorri ymddiriedaeth y cyhoedd (synnwyr cryfach), gan fod y drwg hwn yn y rhan fwyaf o achosion yn eilradd i'r prif ddrwg o gamfanteisio ar unigolyn bregus. Mae'n ymddangos mai'r datrysiad fyddai trosedd rywiol, heb ei chyfyngu i ddeiliaid swydd gyhoeddus yn unig, yn debyg i'r troseddau sy'n bodoli eisoes ynghylch cam-fanteisio ar blant a phobl sydd ag anhwylderau meddyliol, ac ym Mhennod 8 y Papur Ymgynghori, awgrymwn y dylid ystyried hyn mewn adolygiad a gynhelir yn y dyfodol ynghylch troseddau rhywiol. Fodd bynnag, os oes modd cyfiawnhau cyflwyno trosedd o dorri ymddiriedaeth y cyhoedd ar seiliau eraill, bydd hi'n briodol weithiau i wneud cyhuddiad mewn perthynas â throsedd o'r fath mewn achosion Categori 1.
- 1.22 Categori 2: ymrwymo i berthynas sy'n arwain at wrthdaro rhwng buddiannau. Unwaith eto, ar ôl ystyried y mathau o achosion y gallent fod yn berthnasol dan y categori hwn, rydym yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw reswm clir dros bennu ei fod yn droseddol, oni bai bod rhyw ddrygioni pellach yn deillio o wrthdaro penodol. Pan fydd drygioni gwirioneddol o'r fath yn digwydd, bydd trosedd yn bodoli eisoes fel arfer er mwyn rhoi sylw iddo. Yr enghraifft nodweddiadol yw

¹⁵ Gweler y papur cefndir, pen 6 ac Atodiad D, y mae'r ddau ar gael ar-lein yn: <http://www.lawcom.gov.uk/project/misconduct-in-public-office/>.

aelod o staff mewn carchar yn cychwyn perthynas gyda charcharor, gan smyglo eitemau gwaharddedig i mewn iddynt yn dilyn hyn.¹⁶

1.23 Categori 3: gweithredu dan ddylanwad gwrthdaro rhwng buddiannau, tuedd neu ragfarn. Yma, rydym yn gwahaniaethu rhwng achosion sy'n cynnwys cymhellion llwgr a'r rhai nad ydynt yn cynnwys mwy nag agweddau o duedd. Mae'r achosion sy'n ymwneud â llygredd yn dod dan esboniad "torri ymddiriedaeth y cyhoedd" (synnwyr cryfach) ac fe allent gyfateb â throstedd. Yn ein barn ni, mae modd delio gyda'r achosion o duedd heb orfod troi at gyfraith trosedd.

1.24 Categori 4: esgeuluso dyletswydd sy'n arwain at risg niwed difrifol. Mae hyn yn cynrychioli cangen "esgeulustod" y diffiniad o'r drosedd bresennol, ac mae nifer o'r achosion mwyaf blaenllaw, gan gynnwys *AG's Reference*,¹⁷ yn cael eu cynnwys yn y categori hwn. O blith yr holl categorïau, hon yw'r enghraifft fwyaf eglur o ymddygiad anghyfiawn a niweidiol na fyddai'n destun atebolrwydd troseddol yn absenoldeb y drosedd bresennol. Gallai'r ymddygiad dan categori 4 gyfiawnhau creu trosedd newydd sy'n rhoi sylw i dorri dyletswydd, gan gynnwys gweithredu a methu gweithredu, pan fo'r achos o dorri yn peri o leiaf risg o ddiodef canlyniadau difrifol. Yn ôl pob golwg, byddai trosedd newydd o'r math hwn yn ymddangos yn debyg iawn i drosedd bresennol camymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Fodd bynnag, er mwyn osgoi creu trosedd sy'n rhy eang i fod yn bendant, byddai angen i drosedd newydd o'r math hwn ddiffinio:

- (1) y sawl y mae'n berthnasol iddynt; a'r
- (2) mathau o ganlyniadau y mae'n berthnasol iddynt, yn llawer mwy eglur nag y mae'r gyfraith bresennol yn eu diffinio.

1.25 Categori 5: camddefnyddio gwybodaeth swyddogol. Ni wnaethom ganlyn drafodaeth am y categori hwn, gan ei fod bron bob amser yn syrthio o fewn trosedd arall ac mae'n destun prosiect arall y mae Comisiwn y Gyfraith yn ei gynnal ar hyn o bryd.¹⁸

1.26 I gloi, ceir dau brif fath o ddrwg y maent yn haeddu cael eu hystyried at ddibenion trosedd ddiwygiedig neu droseddau diwygiedig:

- (1) Torri dyletswydd sy'n arwain at risg niwed difrifol. Mae hyn yn cynnwys Categori 4 uchod, a byddai modd ei ystyried fel ffurf negyddol o gamlywodraethu neu dorri ymddiriedaeth yn y synnwyr gwannach (methiant i gyflawni dyletswydd yn ôl y disgwyl). Byddai modd i drosedd wedi'i seilio ar y drwg hwn fod yn fwy manwl trwy:

¹⁶ Mae cludo erthyglau gwaharddedig i mewn i'r carchar yn drosedd dan Ddeddf Carchardai 1952, a 40.

¹⁷ *AG's Reference (No 3 of 2003)* [2004] EWCA Crim 868, [2005] QB 73.

¹⁸ Gweler tudalen prosiect Comisiwn y Gyfraith am achosion o Dorri Amodau Data Gwarchoddedig y Llywodraeth, y mae ar gael ar-lein yn <http://www.lawcom.gov.uk/project/breaches-of-protected-government-data/>.

- (a) egluro ei bod yn berthnasol i weithredu yn ogystal â diffyg gweithredu o bosibl (sef y rheswm pam ein bod yn sôn am “dorri” yn hytrach nag “esgeuluso” dyletswydd nawr);
- (b) nodi'r mathau o niwed dan sylw; a
- (c) chyfyngu ar gategori'r swyddogion cyhoeddus sy'n gallu cyflawni'r drosedd

Cynhelir trafodaeth fanwl am y math hwn o drosedd ym Mhennod 5 y Papur Ymgynghori fel Dewis 1 er mwyn diwygio'r gyfraith.

- (2) Ymddygiad llwgr, gan gynnwys camddefnyddio swydd er mwyn sicrhau mantais bersonol neu er mwyn peri niwed i rywun arall. Mae hyn yn cynnwys Categori 3 i'r graddau ag y mae'n ymwneud â llygredd yn hytrach na thuedd, a rhai achosion yng Nghategori 1 o bosibl. Byddai modd disgrifio'r drwg fel camddefnyddio swydd neu dorri ymddiriedaeth y cyhoedd (synnwyr cryfach); mewn achosion lle y diben yw achosi niwed, byddai'n cael ei ystyried fel cam-lywodraethu hefyd.

Cynhelir trafodaeth fanwl am y math hwn o drosedd ym Mhennod 6 y Papur Ymgynghori fel Dewis 2 er mwyn diwygio'r gyfraith.

DEWISIADAU ER MWYN DIWYGIO'R GYFRAITH

- 1.27 Fel y nodwyd uchod, mae'r problemau a nodwyd yn y gyfraith bresennol yn dangos mewn ffordd amlwg na fyddai'n ddymunol cadw'r drosedd bresennol na cheisio'i chyfundrefnu mewn cyfraith statud heb wneud newid sylweddol i'w diffiniad. Felly, mae'r holl ddewisiadau yn y Papur Ymgynghori yn rhagdybio y bydd trosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus dan y gyfraith gyffredin yn cael ei gwaredu.
- 1.28 Mae Dewisiadau 1 a 2 yn golygu creu trosedd newydd er mwyn disodli'r gyfraith bresennol. Mae Dewis 3 yn golygu cael gwared ar y gyfraith bresennol heb ei disodli (trafodir hyn ym Mhennod 7 y Papur Ymgynghori).
- 1.29 Mae Dewisiadau 1 a 2 yn rhai ar wahân ond maent yn cyd-fynd. Hynny yw, byddai modd gweithredu Dewis 1 ar ei ben ei hun, Dewis 2 ar ei ben ei hun, neu'r ddau gyda'i gilydd.

Diffiniad o swydd gyhoeddus

- 1.30 Ym Mhennod 4 y Papur Ymgynghori, rydym yn esbonio, at ddibenion llunio unrhyw drosedd neu droseddau er mwyn disodli camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, bod angen i ni lunio diffiniad mwy trylwyr o swydd gyhoeddus. Byddai modd esbonio'r cysyniad bras a ddylai gael ei adlewyrchu gan y diffiniad hwn mewn un o'r pedair ffordd ganlynol:
 - (1) swydd y mae ganddi gyswllt sefydliadol neu gyswllt cyflogaeth gydag un o freichiau'r wladwriaeth;
 - (2) swydd lle y mae gan yr unigolyn sy'n ei chyflawni ddyletswydd sy'n gysylltiedig gyda swyddogaeth y wladwriaeth, ac y mae gan y cyhoedd

fudd sylweddol yn ei gweld yn cael ei chyflawni (credwn mai hwn yw ystyr “swydd gyhoeddus” yn y gyfraith bresennol);

- (3) swydd sy'n cynnwys swyddogaeth gyhoeddus sy'n gysylltiedig gyda grym cyhoeddus neu rym y wladwriaeth; neu
- (4) swydd sy'n cynnwys swyddogaeth gyhoeddus y mae rheidrwydd ar ddeiliad y swydd ei chyflawni gyda'r bwriad gorau, mewn ffordd ddiuedd neu fel ymddiriedolaeth gyhoeddus.

Rydym yn nodi rhesymau ynghylch pam na fyddem yn cynnig defnyddio dull gweithredu (1) na (2) ac rydym yn gofyn cwestiwn ymgynghori ynghylch pa dull gweithredu y dylid ei ffafrio, (3) neu (4).

1.31 Ar ôl mabwysiadu un o'r pedwar dull gweithredu hwn, mae sut y dylid ei adlewyrchu mewn diffiniad statudol yn gwestiwn ar wahân. Felly, gofynnwn i ymgynghorion: at ddibenion trosedd ddiwygiedig neu droseddau diwygiedig er mwyn disodli camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, a ddylai'r diffiniad statudol o swydd gyhoeddus fod ar ffurf:

- (1) diffiniad cyffredinol sy'n cynnig sail statudol i'r dull gweithredu a ffefrir, gan adael i'r llysoedd ei weithredu mewn achosion unigol;
- (2) diffiniad o swydd gyhoeddus fel unrhyw swydd sy'n cynnwys un o'r swyddogaethau neu fwy sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr;
- (3) rhestr o swyddi sy'n cyfateb â swydd gyhoeddus; neu
- (4) ddiffiniad cyffredinol, lle y mae rhestr o swyddogaethau neu swyddi a gynigir fel enghraifft, ond nad yw'n rhestr gyflawn, yn ychwanegu ato?

1.32 Byddwn yn gofyn cwestiwn atodol pellach, sef: os yw'r diffiniad o swydd gyhoeddus yn cynnwys rhestr o swyddogaethau neu swyddi, a ddylai fod y grym i ychwanegu i'r rhestr trwy orchymyn (y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)?

Dewis 1: model torri dyletswydd

1.33 Er mwyn rhoi sylw i'r cyntaf o blith y prif ddrygau a nodwyd gennym ym Mhennod 3 fel rhai sy'n cyfiawnhau troseddoli, sef torri dyletswydd sy'n arwain at risg niwed difrifol, rydym yn cynnig y dylid creu trosedd newydd sef torri dyletswydd gan ddeiliad swydd gyhoeddus y mae ganddynt ddyletswydd benodol sy'n gysylltiedig ag atal niwed. Rydym yn galw hwn yn “fodel torri dyletswydd”.

1.34 Dylai'r deiliaid swyddi cyhoeddus hynny y mae'r drosedd hon yn berthnasol iddynt gael eu diffinio fel y rhai y mae ganddynt ddyletswyddau sy'n ymwneud ag atal niwed, y gallent gynnwys:

- (1) y rhai y maent yn cyflawni swyddi sy'n cynnwys pwerau gorfodaeth gorfforol, gan gynnwys arestio, dal a charcharu (y rhai sydd â phwerau gorfodaeth gorfforol); a'r
- (2) rhai y maent yn cyflawni swyddi sy'n cynnwys swyddogaethau at ddibenion diogelu unigolion bregus rhag niwed (y rhai sydd â dyletswydd i ddiogelu).

- 1.35 Gallai'r diffiniad o gategori swyddogion cyhoeddus perthnasol fod ar ffurf prawf cyffredinol, neu restr o bwerau, swyddogaethau, dyletswyddau a swyddi penodol.
- 1.36 Dylid cyfyngu ar y drosedd i dorri dyletswydd benodol deiliad y swydd sy'n gysylltiedig gydag atal niwed, ac felly, dim ond achosion lle y mae niwed o'r fath yn digwydd neu lle y ceir perygl iddo ddigwydd, fyddai'n cael eu cynnwys.
- 1.37 Dylid cyfyngu ar y math o niwed, at ddibenion nodi'r deiliaid swyddi cyhoeddus perthnasol ac at ddibenion diffinio torri dyletswydd, i:
- (1) farwolaeth;
 - (2) anaf corfforol neu seiciatrig difrifol;
 - (3) cam-garcharu;
 - (4) niwed difrifol i'r drefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd; a
 - (5) niwed difrifol i'r broses o weinyddu cyfiawnder.
- 1.38 Dylai elfen y drosedd newydd sy'n ymwneud â bai gyfateb â:
- (1) gwybodaeth neu ymwybyddiaeth:
 - (a) o'r amgylchiadau a fyddai'n golygu bod D yn dal swydd gyhoeddus; a'r
 - (b) amgylchiadau sy'n berthnasol i gynnwys unrhyw ddyletswyddau penodol y swydd honno sy'n ymwneud ag atal niwed; ynghyd â
 - (2) diofalwch goddrychol ynghylch y risg y gallai ymddygiad D beri un o'r mathau o niwed a restrir uchod.
- 1.39 Rydym yn gofyn cyfres o gwestiynau i ymgngoreion er mwyn clywed eu safbwyntiau ynghylch yr angen am drosedd o'r fath a'i hunion eiriad.

Dewis 2: model wedi'i seilio ar lygredd

- 1.40 Mae'r dewis hwn yn adlewyrchu'i ail brif ddrwg a nodir ym Mhennod 3: drwg sy'n ymwneud â llygredd. Rydym yn cynnig y dylid creu trosedd newydd sy'n benthyca rhai elfennau trosedd bresennol llygredd gan yr heddlu dan adran 26 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015,¹⁹ ond y mae'n berthnasol i holl ddeiliaid swyddi cyhoeddus ac yn gwella'r drosedd dan adran 26 mewn sawl ffordd. Rydym yn galw hwn yn "fodel wedi'i seilio ar lygredd".
- 1.41 Dan y dewis hwn, byddai model trosedd wedi'i seilio ar lygredd a fyddai'n berthnasol i ddeiliaid swyddi cyhoeddus, a fyddai'n cael ei ddiffinio fel a ganlyn:
- (1) Bydd deiliad swydd gyhoeddus yn cyflawni'r drosedd os bydd ef neu hi'n camddefnyddio'u swydd, eu grym neu eu hawdurdod.

- (2) Hynny yw:
- (a) os bydd ef neu hi'n defnyddio'r grym, y sefyllfa neu'r awdurdod hwn er mwyn sicrhau:
 - (i) budd i'w hunain; neu
 - (ii) fudd neu niwed i rywun arall; ac
 - (b) roedd defnyddio'r sefyllfa, y grym neu'r awdurdod hwnnw i'r diben hwnnw yn amhriodol iawn.²⁰
- 1.42 Wrth benderfynu a oedd yr ymddygiad yn amhriodol iawn, bydd gofyn i reithgor ystyried nifer o ffactorau perthnasol. Gallai'r rhain gynnwys difrifoldeb canlyniadau'r camymddwyn, pa mor uchel yw swydd y diffynnydd a beusrwydd y diffynnydd.
- 1.43 Byddai elfen y drosedd sy'n ymwneud â bai yn cael ei bodloni:
- (1) os byddai deiliad y swydd yn ymwybodol o'r amgylchiadau sy'n pennu bod y swydd dan sylw yn swydd gyhoeddus; ac
 - (2) roedd deiliad y swydd yn cyflawni'r diben dan sylw.
- 1.44 Ni ddylai fod unrhyw ofyniad ar wahân ynghylch ymwybyddiaeth o'r ffaith bod y swydd yn cynnwys dyletswydd i beidio defnyddio'r swydd, y grym neu'r awdurdod at y diben hwnnw neu fod gwneud hynny'n amhriodol iawn. Mae'r ddyletswydd yn dilyn fel mater o gyfraith o'r ffaith eu bod yn cyflawni swydd gyhoeddus, ac mae'r gofyniad ynghylch amhriodoldeb eisoes yn ystyried beusrwydd.
- 1.45 Unwaith eto, rydym yn gofyn cyfres o gwestiynau i ymgylgoreion er mwyn cael eu safbwyntiau ynghylch yr angen am drosedd o'r fath a'i hunion gynnwys.

Dewis 3: ei gwaredu heb ei disodli

- 1.46 Er mwyn sicrhau amrediad llawn o ymatebion, rydym yn cynnwys y dewis o gael gwared ar y drosedd bresennol heb ei disodli, er mai ein cynnig amodol yw na ddylid cael gwared ar y drosedd bresennol heb gyflwyno unrhyw drosedd newydd i'w disodli.
- 1.47 Byddai gwneud hyn yn gadael bwlch yn y gyfraith os byddai mathau o ymddygiad yn cael eu cynnwys yn y drosedd bresennol, y dylent fod yn rhai troseddol, ond:
- (1) na fyddent yn cael eu cynnwys mewn unrhyw drosedd arall os byddai'r drosedd bresennol yn cael ei gwaredu; neu

¹⁹ Trafodir y drosedd hon yn fanwl ym Mhennod 3 y papur cefndir.

²⁰ Rydym yn pwysleisio yma y gallai "amhriodol iawn" gael ei ddisodli gan ymadrodd arall, megis (er enghraifft) "llawer yn is na'r safonau priodoldeb disgwylidig". Croesawn safbwyntiau ymgylgoreion am y pwynt hwn.

- (2) y byddent yn cael eu cynnwys, ond ni fyddai'r drosedd arall honno yn gwneud cyfiawnder gydag anghyfiawnder llawn yr ymddygiad hwnnw o ran labelu neu ddifrifoldeb.
- 1.48 Mae'r ddatl ym Mhennod 3 (niwed a drygau) yn dod i'r casgliad, o leiaf yng Nghategori 4 (esgeuluso dyletswydd sy'n peri risg niwed) ac mewn rhai achosion yng Nghategori 3 (gweithredu dan wrthdaro rhwng buddiannau), bod ymddygiad yn bodoli y dylai fod yn ymddygiad troseddol, ac nad yw'n cael ei gynnwys mewn troseddau eraill. Dim ond os nad ydynt yn cael eu hargyhoeddi gan y ddatl hon neu gan y ddatl ynghylch labelu y bydd ymgynghoreion yn ffafrio Dewis 3 (gwaredu heb ddisodli).

Diwygiadau cydategol

- 1.49 Pa un bynnag o'r dewisiadau uchod a ddewisir, byddai modd i un neu ddau ddiwygiad ychwanegol gael eu hychwanegu iddynt. Rydym yn trafod y rhain ym Mhennod 8 y Papur Ymgynghori.

Diwygio'r gyfundrefn troseddau rhywiol

- 1.50 Yn ein trafodaeth ynghylch Categori 1, defnyddio swydd gyhoeddus i hwyluso perthynas rywiol, daethom i'r casgliad mai'r unig ddrwg difrifol oedd camfanteisio ar unigolyn mewn sefyllfa fregus, ac y byddai modd i'r un drwg ddigwydd mewn cyd-destunau heb fod yn gysylltiedig gyda swydd gyhoeddus.
- 1.51 Gan ddibynnu ar y dewisiadau a weithredir, ni fyddai camfanteisio ar gyfle, sy'n cael ei sicrhau o ganlyniad i'r ffaith bod rhywun yn cyflawni swydd benodol, er mwyn hwyluso perthynas rywiol (ymddygiad Categori 1) yn drosedd mwyach, oni bai ei fod yn cyfateb â:
- (1) Dan Ddewis 1: naill ai trosedd rywiol neu dorri dyletswydd benodol i atal niwed yn achosi risg anaf difrifol.
 - (2) Dan Ddewis 2: naill ai trosedd rywiol neu gamddefnyddio swydd lle y gwelir mai *diben* D oedd sicrhau mantais bersonol neu beri niwed i V.
 - (3) Dan Ddewisiadau 1 a 2 wedi'u cyfuno; trosedd rywiol, torri dyletswydd benodol i atal niwed a oedd yn peri risg o gael anaf difrifol (Dewis 1) neu gamddefnyddio sefyllfa lle y gwelir mai *diben* D oedd sicrhau mantais bersonol neu beri niwed i V (Dewis 2).
- 1.52 Gallai hyn olygu bod angen cynnal adolygiad o'r gyfundrefn troseddau rhywiol er mwyn asesu a ddylid creu troseddau rhywiol ychwanegol er mwyn rhoi sylw i ymddygiad o'r fath. Byddai'r angen am adolygiad o'r fath ar ei fwyaf amlwg pe byddem yn cynnig cael gwared ar y gyfraith bresennol yn llwyr, heb ei disodli (Dewis 3). Byddai ar ei leiaf amlwg pe byddem yn cynnig y dylid disodli'r gyfraith bresennol gan gyfuniad o Ddewisiadau 1 a 2.
- 1.53 Rydym yn awgrymu y gallai camau i ddiwygio troseddau rhywiol yn y dyfodol ystyried:
- (1) trosedd o sicrhau gweithgarwch rhywiol trwy roi pwysau amhriodol; neu

- (2) drosedd o sicrhau gweithgarwch rhywiol trwy gamfanteisio ar unigolyn mewn sefyllfa fregus.

Rydym yn gofyn i ymgynghoreion a ddylid ystyried diwygio'r gyfundrefn troseddau rhywiol yn y cyd-destun hwn.

Trin swydd gyhoeddus fel ffactor gwaethgol at ddibenion dedfrydu

- 1.54 Byddai'r diwygiad ychwanegol arall yn trin y ffaith bod y diffynnydd yn cyflawni swydd gyhoeddus fel ffactor gwaethgol mewn ffordd ffurfiol, wrth ddedfrydu rhywun am gyflawni troseddau eraill. Efallai y byddai trosedd sy'n cael ei labelu fel "camymddwyn mewn swydd gyhoeddus" yn cael ei gwerthfawrogi oherwydd ei bod yn cyflawni swyddogaeth gyfathrebu bwysig. Gydag unrhyw rai o'r dewisiadau diwygio yr ydym yn eu cynnig, gallai gwerth labelu, gan ddibynnu ar y label a roddir i unrhyw drosedd statudol yn Newid 1 neu 2, gael ei leihau neu fe allai gael ei gollu. Un ffordd y mae modd i'r gyfraith droseddol barhau i fod yn arwydd o anghyfiawnder ymddygiad amhriodol gan swyddogion cyhoeddus yw wrth i lysoedd gydnabod yn gyhoeddus y dylai'r ddedfryd am unrhyw drosedd a gyflawnir gan ddeiliad swydd gyhoeddus gael ei chynyddu er mwyn adlewyrchu'r ffactor gwaethgol hwnnw.
- 1.55 Byddai modd cyfuno hyn gydag unrhyw un o'r tri phrif ddewis, er y byddai'r angen amdano yn fwyaf amlwg yn achos Dewis 3 (gwaredu heb ei disodli).
- 1.56 Mae rhan bwysig o'r broses ddedfrydu yn ymwneud â barnwyr yn arfer eu disgrisiwn barnwrol ynghylch pa ffactorau mewn achos penodol sy'n gwaethgol neu sy'n lliniaru troseddoldeb y diffynnydd, ac felly, eu dedfryd yn y pen draw.
- 1.57 Mae'r ffactorau y gallai barnwr sy'n dedfrydu eu hystyried yn cynnwys y rhai a nodir gan y Cyngor Dedfrydu mewn canllawiau dedfrydu perthnasol, ond nid ydynt wedi cael eu cyfyngu i'r rhain. Ffordd amgen o adlewyrchu swydd gyhoeddus fel ffactor gwaethgol yn y broses ddedfrydu fyddai trwy greu darpariaeth statudol sy'n mynnu bod y llysoedd yn ystyried a ddylid trin swydd gyhoeddus fel ffactor gwaethgol neu ei bod yn cael ei thrin fel ffactor gwaethgol.
- 1.58 Ni cheir unrhyw ganllawiau dedfrydu ynghylch y drosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Yn ogystal, ar hyn o bryd, mae'n arfer cyffredin cyfeirio at "dorri ymddiriedaeth" fel ffactor gwaethgol mewn canllawiau dedfrydu amrywiol, ond ni chyfeirir at swydd gyhoeddus. Yn yr un modd, ni cheir darpariaeth statudol sy'n ymwneud â thrin swydd gyhoeddus fel nodwedd waethgol mewn achos penodol. Nid yw hynny i ddweud, fodd bynnag, nad yw'r ffaith bod diffynnydd wedi cyflawni trosedd wrth iddynt gyflawni swyddogaethau swydd gyhoeddus, yn cael ei ystyried fel ffactor gwaethgol.
- 1.59 Credwn yn bendant ar yr adeg hon na cheir achos cymhellol dros gynnwys ffactor swydd gyhoeddus mewn canllawiau dedfrydu ffurfiol na mewn darpariaeth statudol sy'n nodi bod modd iddo gael ei drin fel ffactor gwaethgol neu fod yn rhaid iddo gael ei drin fel ffactor gwaethgol. Rydym yn gofyn i ymgynghoreion a ydynt yn cytuno gyda'r datganiad hwn neu beidio.

CRYNODEB O'R CWESTIYNAU YMGYNGHORI A'R CYNIGION AMODOL

Pennod 4: Dewisiadau er mwyn diwygio'r gyfraith: swydd gyhoeddus

Cwestiwn ymgynghori 1

1.60 At ddibenion trosedd ddiwygiedig neu droseddau diwygiedig er mwyn disodli camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, a ddylid diffinio "swydd gyhoeddus" yn nhermau:

- (1) swydd sy'n cynnwys swyddogaeth gyhoeddus a gyflawnir yn unol â grym cyhoeddus neu wladwriaethol; neu
- (2) swydd sy'n cynnwys swyddogaeth gyhoeddus y mae rheidrwydd ar ddeiliad y swydd i weithredu gyda'r bwriad gorau, mewn ffordd ddiuedd neu fel ymddiriedolaeth gyhoeddus?

Cynnig amodol 2

1.61 At ddibenion trosedd ddiwygiedig neu droseddau diwygiedig er mwyn disodli camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, ni ddylid diffinio "swydd gyhoeddus" yn nhermau:

- (1) swydd y mae ganddi gyswllt sefydliadol neu gyswllt cyflogaeth gydag un o freichiau'r wladwriaeth; neu
- (2) swydd lle y mae gan yr unigolyn sy'n ei chyflawni ddyletswydd sy'n gysylltiedig gyda swyddogaeth y wladwriaeth, y mae gan y cyhoedd fudd sylweddol yn ei gweld yn cael ei chyflawni.

Cwestiwn ymgynghori 3

1.62 At ddibenion trosedd ddiwygiedig neu droseddau diwygiedig er mwyn disodli camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, a ddylai'r diffiniad statudol o swydd gyhoeddus fod ar ffurf:

- (1) diffiniad cyffredinol;
- (2) diffiniad o swydd gyhoeddus fel unrhyw swydd sy'n cynnwys un o'r swyddogaethau neu fwy sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr;
- (3) rhestr o swyddi sy'n cyfateb â swydd gyhoeddus; neu
- (4) ddiffiniad cyffredinol, y mae rhestr o swyddogaethau neu swyddi a gynigir fel enghraifft, ond nad yw'n rhestr gyflawn, yn ychwanegu ato?

Cwestiwn ymgynghori 4

1.63 Os yw'r diffiniad o swydd gyhoeddus yn cynnwys rhestr o swyddogaethau neu swyddi, a ddylai fod y grym i ychwanegu i'r rhestr trwy orchymyn yn amodol ar y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol?

Pennod 5: Dewisiadau er mwyn diwygio'r gyfraith - dewis 1: model torri dyletswydd

- 1.64 Mae'r holl gynigion amodol a'r cwestiynau ymgynghori yn yr adran hon yn cyfeirio at y drosedd newydd arfaethedig mewn perthynas â thorri dyletswydd, achosi neu beryglu canlyniadau difrifol, gan ddeiliaid swydd gyhoeddus y mae ganddynt ddyletswyddau penodol sy'n ymwneud ag atal niwed.

Cynnig amodol 5

- 1.65 Dylai'r drosedd gynnwys gweithredoedd cadarnhaol a diffyg gweithredu, a dylai elfennau'r drosedd gyfeirio at "dorri dyletswydd" er mwyn adlewyrchu hyn.

Cynnig amodol 6

- 1.66 Dylid cyfyngu ar y drosedd i dorri dyletswyddau penodol sy'n ymwneud ag atal niwed.

Cynnig amodol 7

- 1.67 Dylai categori deiliaid swyddi cyhoeddus dan ddyletswydd benodol sy'n ymwneud ag atal niwed gael ei ddiffinio er mwyn cynnwys deiliaid swyddi cyhoeddus y mae ganddynt bwerau gorfodaeth gorfforol (os yw'n cynnwys unrhyw ddeiliaid swyddi cyhoeddus eraill neu beidio).

Cwestiwn ymgynghori 8

- 1.68 A ddylai categori deiliaid swyddi cyhoeddus dan ddyletswydd benodol sy'n ymwneud ag atal niwed gael ei ddiffinio er mwyn cynnwys y deiliaid swyddi cyhoeddus hynny y mae ganddynt ddyletswydd diogelu mewn perthynas ag unigolion bregus (os yw'n cynnwys unrhyw ddeiliaid swyddi cyhoeddus eraill neu beidio)?

Cwestiwn ymgynghori 9

- 1.69 A ddylai categori'r unigolion bregus gael ei ddiffinio:
- (1) yn yr un modd ag y mae'n cael ei ddiffinio yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006; neu
 - (2) mewn rhyw ffordd arall, ac os felly, ym mha ffordd?

Cwestiwn ymgynghori 10

- 1.70 A ddylai'r drosedd gael ei diffinio er mwyn cynnwys torri pob dyletswydd a orfodir gan y gyfraith er mwyn atal (neu beidio achosi) mathau penodol o niwed, neu a ddylid cael diffiniad mwy cyfyngedig o natur y ddyletswydd dan sylw?

Cynnig amodol 11

- 1.71 Dylid diffinio'r drosedd fel un sy'n cynnwys torri dyletswydd benodol sy'n ymwneud ag atal niwed penodedig.

Cwestiwn ymgynghori 12

- 1.72 A ddylai'r diffiniad o gategori deiliaid swyddi cyhoeddus y mae ganddynt bwerau gorfodaeth gorfforol fod ar ffurf:

- (1) diffiniad cyffredinol;
- (2) diffiniad o'r math hwnnw o swydd gyhoeddus fel unrhyw swydd sy'n cynnwys un swyddogaeth neu fwy sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr;
- (3) rhestr o swyddi sy'n cyfateb â'r math hwnnw o swydd gyhoeddus; neu
- (4) ddiffiniad cyffredinol, y mae rhestr o swyddogaethau neu swyddi a gynigir fel enghraifft, ond nad yw'n rhestr gyflawn, yn cael ei chynnig fel enghraifft?

Cwestiwn ymgynghori 13

- 1.73 Os yw'r diffiniad o'r categori hwnnw (deiliaid swyddi cyhoeddus y maent yn cynnwys pwerau gorfodaeth gorfforol) yn cynnwys rhestr o swyddogaethau neu swyddi, a ddylai fod y grym yn bodoli i ychwanegu i'r rhestr trwy orchymyn?

Cwestiwn ymgynghori 14

- 1.74 A ddylai'r diffiniad o gategori'r deiliaid swyddi cyhoeddus y mae ganddynt ddyletswydd ddiogelu fod ar ffurf:

- (1) diffiniad cyffredinol;
- (2) diffiniad o'r math hwnnw o swydd gyhoeddus fel unrhyw swydd sy'n cynnwys un neu fwy o'r swyddogaethau sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr;
- (3) rhestr o'r swyddi sy'n cyfateb â'r math hwnnw o swydd gyhoeddus; neu
- (4) ddiffiniad cyffredinol, y mae rhestr o swyddogaethau neu swyddi a gynigir fel enghraifft, ond nad yw'n rhestr gyflawn, yn cael ei chynnig fel enghraifft?

Cwestiwn ymgynghori 15

- 1.75 Os yw'r diffiniad o'r categori hwnnw (o ddeiliaid swydd gyhoeddus y mae ganddynt ddyletswydd i ddiogelu) yn cynnwys rhestr o swyddogaethau neu swyddi, a ddylai fod y grym yn bodoli i ychwanegu i'r rhestr trwy orchymyn?

Cynnig amodol 16

- 1.76 Ni ddylai fod unrhyw ofyniad ar yr erlyniad i brofi bod D yn gwybod bod ei swydd ef neu ei swydd hi yn swydd gyhoeddus yn ôl y gyfraith, sy'n cynnwys gweithredu pwerau gorfodaeth gorfforol neu ddyletswydd i ddiogelu. Mae'n ddigonol i'r erlyniad ddangos bod D yn ymwybodol o'r amgylchiadau ffeithiol a oedd yn peri iddi fod yn swydd o'r fath.

Cynnig amodol 17

- 1.77 Dylid cael gofyniad bod D yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau sy'n berthnasol i gynnwys unrhyw ddyletswyddau ei swydd ef neu ei swydd hi sy'n ymwneud ag atal niwed. Er enghraifft, y mathau o niwed y mae'r dyletswyddau'n mynnu bod D yn eu hatal ac ym mha amgylchiadau.

Cynnig amodol 18

- 1.78 Dylai'r drosedd gynnwys canlyniadau go iawn a chanlyniadau posibl.

Cynnig amodol 19

- 1.79 Dylid ystyried bod risg y ddau fath canlynol o ganlyniad:

- (1) marwolaeth ac anaf difrifol (gan gynnwys niwed corfforol a seiciatrig); a
- (2) cham-garcharu;

yn niwed i'r cyhoedd at ddibenion y drosedd.

Cwestiwn ymgynghori 20

- 1.80 A ddylid ystyried bod risg niwed difrifol i'r drefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd yn niwed i'r cyhoedd at ddibenion y drosedd?

Cwestiwn ymgynghori 21

- 1.81 A ddylid ystyried bod risg niwed difrifol i'r gwaith o weinyddu cyfiawnder yn ganlyniad a fyddai'n debygol o beri risg y byddai niwed i'r cyhoedd yn digwydd at ddibenion y drosedd?

Cwestiwn ymgynghori 22

- 1.82 A ddylid ystyried bod risg niwed difrifol i eiddo yn ganlyniad a fyddai'n debygol o beri risg y byddai niwed i'r cyhoedd yn digwydd at ddibenion y drosedd?

Cwestiwn ymgynghori 23

- 1.83 A ddylid ystyried bod risg colled economaidd ddifrifol yn ganlyniad a fyddai'n debygol o beri risg y byddai niwed i'r cyhoedd yn digwydd at ddibenion y drosedd?

Cynnig amodol 24

- 1.84 Dim ond pan fydd risg y bydd canlyniadau difrifol yn digwydd y dylid pennu atebolrwydd.

Cynnig amodol 25

- 1.85 Dylai elfen fai y drosedd gynnwys diofalgwch ynghylch risg canlyniad penodedig fel y diffiniwyd uchod. Ni ddylai'r drosedd gynnwys elfen o fwriad cudd.

Cynnig amodol 26

- 1.86 Dylai'r drosedd wahardd elfen "heb esgus neu gyfiawnhad rhesymol" ond gan gadw amddiffyniadau perthnasol y gyfraith gyffredin wrth erlyn.

Cwestiwn ymgynghori 27

- 1.87 A ddylid cyflwyno trosedd torri dyletswydd gan ddeiliad swydd gyhoeddus (yn amodol ar ddyletswydd benodol sy'n ymwneud ag atal niwed, fel y disgrifir yn y cynigion amodol uchod)?

Pennod 6: Dewisiadau er mwyn diwygio'r gyfraith - Dewis 2: Y model wedi'i seilio ar lygredd

- 1.88 Mae'r holl gynigion amodol a'r cwestiynau ymgynghori yn yr adran hon yn cyfeirio at y drosedd arfaethedig newydd mewn perthynas â chamddefnyddio swydd gan ddeiliad swydd gyhoeddus, at ddibenion sicrhau mantais bersonol neu beri niwed i rywun arall.

Cynnig amodol 28

- 1.89 Dylai'r drosedd roi sylw i'r ymddygiad canlynol:
- (1) Mae D yn cyflawni'r drosedd os bydd ef neu hi'n camddefnyddio'u sefyllfa, eu pŵer neu eu hawdurdod.
 - (2) Hynny yw, os:
 - (a) bydd ef neu hi'n gweithredu'r sefyllfa, y pŵer neu'r awdurdod hwnnw er mwyn sicrhau:
 - (i) budd i'w hunain; neu
 - (ii) fudd neu niwed i rywun arall; ac
 - (b) roedd y cam o weithredu'r pŵer, y sefyllfa neu'r awdurdod hwnnw at y diben hwnnw yn amhriodol iawn.

Cynnig amodol 29

- 1.90 Dylai'r drosedd fod yn berthnasol i holl ddeiliaid swyddi cyhoeddus, heb unrhyw gyfyngiadau pellach.

Cynnig amodol 30

- 1.91 Ni ddylai'r drosedd gynnwys gofyniad bod deiliad y swydd gyhoeddus, yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r amgylchiadau sy'n pennu bod y swydd dan sylw yn swydd gyhoeddus, yn ymwybodol hefyd o'r ffaith bod eu swydd yn cael ei hystyried yn swydd gyhoeddus yn ôl y gyfraith.

Cynnig amodol 31

- 1.92 Dylai elfen fai y drosedd gynnwys y diben o sicrhau mantais i ddeiliad y swydd neu i rywun arall neu niwed i rywun arall. Ni ddylai fod unrhyw ofyniad ychwanegol ynghylch ymwybyddiaeth o'r ffaith bod gweithredu gyda'r diben hwnnw yn amhriodol iawn.

Cynnig amodol 32

- 1.93 Dylai amddiffyniadau'r gyfraith gyffredin fod yn berthnasol. Ni ddylai fod rhagor o amddiffyniadau.

Cwestiwn ymgynghori 33

- 1.94 A ddylid cyflwyno model trosedd wedi'i seilio ar lygredd, sy'n berthnasol i swyddogion cyhoeddus, fel y disgrifir yn y cynigion amodol uchod?

Cwestiwn ymgynghori 34

- 1.95 Os cyflwynir trosedd o'r fath, a ddylid ei chyflwyno ar ei phen eu hun neu ar y cyd â'r drosedd arfaethedig a ddisgrifir yn Newis 1?

Pennod 7: Dewisiadau er mwyn diwygio'r gyfraith - Dewis 3: Gwaredu heb ddisodli

Cynnig amodol 35

- 1.96 Ni ddylid cael gwared ar drosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus heb gyflwyno unrhyw drosedd newydd i'w disodli.

Pennod 8: Diwygiadau cyfreithiol cydategol

Cwestiwn ymgynghori 36

- 1.97 A ddylid ystyried diwygio'r gyfundrefn troseddau rhywiol, mewn perthynas â:

- (1) sicrhau rhyw trwy gyfrwng pwysau amhriodol; a/neu
- (2) chamfanteisio ar unigolyn bregus mewn ffordd rywiol?

Cwestiwn ymgynghori 37

- 1.98 A yw ymgynghoreion yn cytuno y dylai'r cwestiwn ynghylch a ddylid trin y ffaith bod diffynnydd yn cyflawni swydd gyhoeddus fel ffactor gwaethgol at ddibenion dedfrydu unrhyw drosedd, fod yn destun disgresiwn barnwrol ym mhob achos (yn hytrach na chael ei nodi mewn canllawiau dedfrydu neu mewn statud)?

CASGLIAD

- 1.99 Mae'r crynodeb hwn yn nodi'r dadleuon o blaid diwygio'r gyfraith a'r cynigion a wnaethpwyd yn ein Papur Ymgynghori cyhoeddedig, *Diwygio Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus*, er mwyn diwygio'r gyfraith. Ni ellir gwneud cyfiawnder gyda'r cynigion, ac yn arbennig, gyda'r drafodaeth ddamcaniaethol sy'n cynnig sail i'r cynigion hynny, mewn crynodeb o'r fath hyd. Felly, anogir ymgynghoreion i droi at y Papur Ymgynghori llawn sydd ar gael ar ein gwefan.²¹ Rydym yn croesawu ymatebion i'r cynigion amodol a'r cwestiynau ymgynghori sy'n ymddangos yn y papur hwnnw. Dylid anfon y rhain atom erbyn 28 Tachwedd 2016. Ein nod yw cyhoeddi adroddiad terfynol am y prosiect hwn yn 2017.

²¹ Ar gael yn <http://www.lawcom.gov.uk/project/misconduct-in-public-office/>.

Gellir anfon sylwadau:

Trwy e-bost: misconduct@lawcommission.gsi.gov.uk

Trwy'r post: Justine Davidge, Criminal Law Team, Law Commission of England & Wales, 1st Floor Tower, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.

Dros y ffôn: 020 3334 3462

Trwy ffacs: 020 3334 0201

Os ydych chi'n anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai o help pe gallech, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, eu hanfon hefyd yn electronig (er enghraifft, ar CD neu drwy e-bost i'r cyfeiriad uchod, mewn unrhyw fformat cyffredin ei ddefnydd).